7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.4 Grantiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Trosolwg

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig ystod eang o grantiau i gyrff ledled Cymru fel awdurdodau lleol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, a'r sector gwirfoddol. Defnyddir y grantiau i ddarparu gwasanaethau sy'n ateb anghenion y cyhoedd yng Nghymru, fel gwella tai, lleihau digartrefedd, hybu diogelwch cymunedol ac adfywio ardaloedd difreintiedig.

Mae'r daflen wybodaeth hon yn cynnwys manylion am gynlluniau grantiau a gynigir gan Lywodraeth y Cynulliad naill ai'n uniongyrchol, neu drwy gyrff annibynnol. Rhoddir crynodeb byr o bob cynllun ynghyd â'i fanylion cyswllt.

Cronfa Gynaliadwyedd yr Ardoll Agregau ar gyfer Cymru

Cyflwynwyd yr Ardoll Agregau gan Ddeddf Cyllid 2001, a ddaeth i rym yn Ebrill 2002. Defnyddiwyd rhan o'r arian a godwyd gan yr ardoll i sefydlu Cronfa Gynaliadwyedd i fynd i'r afael â'r costau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chloddio agregau. Yng Nghymru, defnyddir y Gronfa i ateb problemau sy'n benodol i Gymru:

- I fynd i'r afael â'r etifeddiaeth o hen ganiatadau mwynau.
- I hybu defnyddio deunyddiau eraill yn lle agregau.
- I leihau effaith cloddio agregau.
- I roi manteision amgylcheddol a mwynderol i gymunedau a effeithiwyd gan gloddio agregau.
- I warchod safleoedd o ddiddordeb arbennig.
- Ar gyfer prosiectau addysgol.

Mae cyllid ar gael i brosiectau sy'n mynd i'r afael â'r materion uchod ac sy'n cwrdd â'r meini prawf a nodir yn y pecynnau gwybodaeth. Cynghorir darpar ymgeiswyr i drafod prosiectau arfaethedig cyn cyflwyno cais.

Cyswllt: Llywodraeth Cynulliad Cymru, Y Gangen Polisi Cynllunio, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3261 neu 029 2080 1492
Planning.Division@wales.gsi.gov.uk

CADW

Grantiau Prosiectau Dinesig (Treftadaeth)

Mae'r cynllun uchod yn rhoi grantiau hyd at £5,000 i gyrff gwirfoddol lleol ar gyfer prosiectau sy'n cyfrannu at gynyddu ymwybyddiaeth o'r amgylchedd hanesyddol ac yn hybu gwerthfawrogiad ohono. Gallai hyn gynnwys cynnal arddangosfeydd neu gyhoeddi deunydd addysgol ar yr amgylchedd hanesyddol.

Bydd gwaith ffisegol yn cael ei ystyried lle maen nhw'n gwella gwerthfawrogiad y cyhoedd o'r amgylchedd hanesyddol.Gallai hyn gynnwys codi placiau sy'n helpu i gyflwyno adeiladau hanesyddol, neu sy'n gwella gwerthfawrogiad y cyhoedd o'r amgylchedd hanesyddol neu'n hyrwyddo gwybodaeth i ymwelwyr.

Mae'r cynllun yn arbennig o berthnasol i gymdeithasau dinesig a bydd angen iddynt gyfrannu cyllid cyfatebol.

Cynllun Grant Adfywio Gwledig
Gall Cadw gynnig grant tuag at atgyweirio adeilad yng nghefn gwlad er mwyn ei wneud yn addas unwaith eto at ddefnydd blaenorol neu ei addasu at ddefnydd newydd.

Rhaid i'r adeilad fod

- yn rhestredig
- 'mewn perygl'
- yng nghefn gwlad neu mewn pentref o 500 o drigolion neu lai.

Mae'r grant ar gael i ymddiriedolaethau, elusennau, cyrff cyhoeddus, unigolion, neu fusnesau (ond mae amodau os caiff yr adeilad ei werthu o fewn 10 mlynedd).

Mae'r cynllun yn addas ar gyfer adeiladau o unrhyw fath, gan gynnwys adeiladau amaethyddol, diwydiannol, crefyddol, domestig, a masnachol.

Cyswllt: Cadw,
Plas Carew, Unedau 5&7, Cefn Coed,
Nantgarw, Caerdydd, CF15 7QQ
Ffôn: 01443 336 000
Ffacs: 01443 336 001
cadw@wales.gsi.gov.uk
www.cadw.wales.gov.uk

Ymddiriedolaethau Archeolegol yng Nghymru

Rhoddir grantiau o dan y rhaglen hon ond i'r pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol yng Nghymru i achub archeoleg ledled Cymru.

Mae'r ymddiriedolaethau'n ymwneud â datblygu a gweithredu polisïau sy'n berthnasol i warchod, cofnodi, dehongli a chyflwyno archeoleg, tirluniau hanesyddol a threftadaeth adeiledig Cymru.

Cyswllt: Gwilym Hughes
Ffôn: 01443 336 033
cadw@wales.gsi.gov.uk
www.cadw.wales.gov.uk

Y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

Dyfeisiwyd y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol i ddarparu neu i wella cyfleusterau cymunedol ac i gefnogi gweithgareddau cymunedol sy'n ceisio adfywio cymunedau. Mae'r rhaglen yn agored i fudiadau gwirfoddol a chymunedol fel ei gilydd.

Mae angen i ymgeiswyr fod yn fudiadau annibynnol, hunanlywodraethol, di-elw eu dosbarthiad ac yn bennaf ddifusnes ac er budd i'r cyhoedd. Gall y rhaglen roi grantiau i helpu i ddarparu cyfleusterau neu i gyflawni gweithgareddau sy'n hybu adfywio cymunedau drwy fynd i'r afael â'r blaenoriaethau canlynol:

- Creu neu ailwampio cyfleusterau sydd ar gael i'r gymuned gyfan, neu eu haddasu i sicrhau mynediad cyfartal i bobl anabl fel sy'n ofynnol o

dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.

- Gwaith i wella'r amgylchedd adeiledig neu naturiol i bobl leol.
- Gwella lles y gymuned drwy annog ffyrdd o fyw iach a gweithredol.
- Darparu cyfleusterau neu weithgareddau sy'n lleihau tlodi, anghydraddoldeb, gwahaniaethu ac anfantais gymdeithasol.
- Annog hyfforddiant sy'n targedu pobl agored i niwed neu wedi eu heithrio.
- Ysgogi busnesau cymunedol a mentrau cymdeithasol.
- Helpu i hyrwyddo cyfleoedd gwaith ac incymau gwell.
- Cynnwys pobl o bob oed a gallu yn y gymuned a mynd i'r afael ag anghenion grwpiau sydd wedi eu heithrio'n gymdeithasol.
- Cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol a ieithyddol y gymuned.

Gweithgareddau cymunedol
Gall y rhaglen gyllido unrhyw gynigion sy'n ysgogi cyfranogiad pobl leol yng ngweithgareddau'r gymuned tra'n cyfrannu at adfywio ardal. Anogir ymgeiswyr i gyflwyno cynigion sy'n gydnaws â fframwaith Gweledigaeth Gymunedol y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Gellir rhoi grantiau ar gyfer prosiectau cyfalaf sy'n parhau am hyd at dair blynedd a £300,000 yw'r grantiau mwyaf fel arfer.

Cofiwch, oherwydd ymrwymiadau presennol, y bydd cyllid yn eithaf prin.

Cyswllt:

Judith Davies
Ffôn: 01685 729315
Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Casnewydd, Tor-faen a Wrecsam

Richard Fowler
Ffôn: 01685 729317
Sir Fôn, Caerdydd, Gwynedd, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Bro Morgannwg

Mike O'Shea
Ffôn: 01685 729316
Pen-y-bont ar Ogwr, Ceredigion, Conwy, Merthyr, Rhondda Cynon Taf, Abertawe

Roger Plater
Ffôn: 01685 729321
Powys

Grantiau ar gyfer mudiadau plant a theuluoedd

Amcan cyffredinol y cynllun hwn yw cefnogi gweithgareddau craidd mudiadau gwirfoddol yn y sector gofal cymdeithasol sy'n gweithio ar lefel Cymru gyfan, datblygu gwasanaethau cefnogi ataliol i blant a theuluoedd, ac osgoi teuluoedd yn chwalu.

Ei nod yw meithrin gallu cyrff gwirfoddol cymwys i helpu'r Cynulliad i gyflawni ei amcanion o greu cymdeithas fwy cynhwysol gyda chyfle cyfartal ac fel bod plant yn gallu chwarae rôl gadarnhaol yn y gymuned lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae'n canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Bod cyrff sy'n darparu gwasanaethau i blant yng Nghymru yn cael eu cynrychioli'n genedlaethol
- Gofal dydd
- Plant sy'n derbyn gofal (gan gynnwys eiriolaeth, maethu a mabwysiadu)

- Plant anabl
- Magu plant.
- Amddiffyn plant
- Plant o grwpiau ethnig a lleiafrifol eraill
- Chwarae.

Cyswllt:
Llywodraeth Cynulliad Cymru, Is-adran Strategaeth Plant (Y Tîm Rhaglenni Plant a Theuluoedd)

Andrew Carter
Ffôn: 029 2082 5894
Leia Dally
Ffôn: 029 2082 6379
cymorth@wales.gsi.gov.uk

Darparu cyngor a gwasanaethau yng nghyswllt troseddu gan bobl ifanc a thrais yn y cartref

Mae'r cynllun grantiau'n dyrannu cyllid i fudiadau gwirfoddol arbenigol sy'n darparu ystod o wasanaethau a chyngor i asiantaethau lleol ar droseddu gan bobl ifanc, trais yn y cartref a thrais yn erbyn merched. Mae'r cynllun wedi'i anelu'n bennaf at fudiadau sy'n gallu gweithio'n effeithiol ar lefel Cymru gyfan, er y bydd prosiectau arloesol lleol neu ranbarthol efallai'n cael eu hystyried

Mae cyllid ar gael i fudiadau sy'n darparu gwasanaeth ymgynghorol, hyfforddiant a chymorth i dimau troseddau ieuenctid, ac i fudiadau sy'n rhoi cyngor a gwasanaethau yng nghyswllt trais yn y cartref neu drais yn erbyn merched.

Mae'r cynllun yn cynnwys cymorth refeniw i helpu cyrff gwirfoddol sy'n gweithio gyda phroblemau cam-drin yn y cartref er mwyn lleihau digartrefedd a chysgu allan.

Os am ymgeisio am gyllid o dan y cynllun hwn, mae canllawiau manwl a ffurflenni cais ar gael.

Cyswllt: Jane Andrews, Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhydycar, Merthyr Tydful, CF48 1UZ
Ffôn: 01685 729088
jane.andrews@wales.gsi.gov.uk

Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Nod y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yw datblygu a phrofi, mewn partneriaeth, ffyrdd newydd o gael pobl i fyw'n fwy cynaliadwy mewn cefn gwlad sy'n hynod o naturiol hardd ac amrywiol, lle mae'r nodweddion lleol o ddiwylliant, bywyd gwyllt, tirlun, defnydd tir a chymuned yn cael eu gwarchod a'u gwella. Dechreuodd y cynllun ym Mehefin 2000 mewn Parciau Cenedlaethol ac yn Ebrill 2001 mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae'r cynllun ar gael i unigolion neu fudiadau o'r sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol os medrant ddangos bod eu cynlluniau'n cwrdd â'r meini prawf cymhwyso. Ni fydd grantiau i'r sector gwirfoddol fel arfer yn fwy na 75%, ac i fudiadau eraill ni fyddant fel rheol yn fwy na 50%, ond bydd 100% ar gael mewn amgylchiadau eithriadol.

Amcanion y cynllun yw:

- Ymchwilio i ffyrdd o gyflawni, ar yr un pryd, egwyddorion cynaliadwyedd a chwalu'r rhwystrau sy'n gallu atal cynaliadwyedd
- Datblygu modelau ar gyfer rheoli cefn gwlad yn gynaliadwy, ac y gellid eu cyflwyno'n ehangach ar draws Cymru.

- Creu mwy o ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o gynaliadwyedd.

Rhoddir blaenoriaeth i gynigion cymwys sy'n:

- Dangos arloesi neu arferion gorau.
- Cynnwys pobl ifanc a chymunedau lleol.
- Defnyddio cyfraniadau o ffynonellau eraill.
- Ychwanegu gwerth neu ddimensiwn newydd at brosiectau cynaliadwyedd presennol.

Mae ffurflenni cais ar gael gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a chan Swyddogion awdurdodau lleol sydd ag Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Bydd angen i bob prosiect gwrdd â'r meini prawf cymhwyso isod.

Rhaid iddynt:

- Fod yn gynaliadwy.
- Dangos bod ganddynt gefnogaeth neu gyfranogiad diffuant eu cymunedau.
- Cefnogi un neu ragor o amcanion y cynllun.
- Cyd-fynd â strategaethau lleol a chenedlaethol allweddol, e.e. Agenda Leol 21.
- Dod â mudiadau at ei gilydd mewn partneriaeth i ateb problemau.

Cyswllt:
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Ffôn: 01874 624 437

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Ffôn: 01646 624 874

Parc Cenedlaethol Eryri
Ffôn: 01766 770 274

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ffôn: 029 2082 3169

Cymru: Y Fenter Cymunedau Gweithredol

Nod y Fenter Cymunedau Gweithredol yw ail-greu teimlad o gymuned ledled Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad eisiau cefnogi unrhyw brosiect Cymru gyfan sy'n codi proffil ac yn ysgogi mwy o wirfoddoli a chyfranogiad cymunedol. Rheolir y ffrwd gyllido hon gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Meini Prawf Penodol
Mae'r ffrwd gyllido hon ar gael i brosiectau Cymru gyfan yn unig. Os yw eich prosiect chi'n un lleol, ni fyddwch yn gymwys i dderbyn cyllid o dan y fenter hon. Bydd angen i ddarpar ymgeiswyr sydd eisiau ennill cyllid ar gyfer eu prosiectau yn y dyfodol gwrdd ag o leiaf un o'r pedwar amcan allweddol canlynol:

- Gwella seilwaith
- Meithrin gallu
- Cyfryngau a gwaith hyrwyddo
- Ymchwil.

O fewn yr amcanion hyn, cefnogir prosiectau sy'n hybu ac yn cynnal cyfranogiad gwirfoddolwyr a'r gymuned yn y meysydd canlynol:

- Gwledig
- Ieuenctid
- Lleiafrifoedd ethnig
- Pobl hŷn
- Pobl anabl
- Gweithwyr.

Yn ychwanegol, bydd sylw arbennig yn cael ei roi i ffyrdd o wella:

- Mynediad at wirfoddoli.
- Cydlynu gwaith gwirfoddolwyr ac asiantaethau gwirfoddol
- Cynyddu cyllid ar gyfer cyfranogiad gwirfoddolwyr a'r gymuned.

Cynhaliwyd y cylch ceisiadau diwethaf am yr arian hwn ym mis Medi 2006 a rhoddwyd arian i ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer y cyfnod 2007-10.

Mae ffurflenni cais ar gael o Ddesg Gymorth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ffôn: 0800 2888 329
activecommunity@wcva.org.uk.

Y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol –Iechyd Meddwl Lleol Y Cynllun Grantiau Bach 2009-2010

Mae'r cynllun hwn yn grant un-tro, a'r uchafswm grant (fesul prosiect) sydd ar gael i fudiadau cymwys yw **£3,000**.

Gwahoddir ceisiadau dan y cynllun hwn gan fudiadau gwirfoddol cyfansoddiadol. Pwrpas y cynllun yw cefnogi a gwella cyfraniad y sector gwirfoddol i'r gofal a gaiff pobl sy'n wynebu problemau iechyd meddwl a'u teuluoedd a'r sawl sy'n gofalu amdanynt, yng Nghymru.

Gellir ystyried amrywiaeth eang o brosiectau am gyllid, gan gynnwys:

- darparu offer a gwella adeiladau;
- cyhoeddiadau;
- ymchwil;
- hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr;
- gweithgareddau achlysurol megis teithiau undydd.

Mae'n angenrheidiol fod buddiolwyr y cynllun hwn yn bobol sydd â thrafferthion iechyd meddwl.

Nid yw'r cynllun hon yn ariannu gwasanaethau ar gyfer plant.

Anelir y cynllun yn bennaf at grŵpiau a mudiadau nad ydynt ar hyn o bryd yn cael nawdd, neu yn cael llai na £10,000 dan y cynllun Grantiau Iechyd Meddwl Lleol neu'r Cynllun Grantiau SPD cyfredol.

Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau yw 16 Ionawr 2009.

Cyswllt: Desg Gymorth y WCVA
Ffôn: 0800 2888 329
help@wcva.org.uk

Y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol – grantiau i gyrff gwirfoddol Cymru gyfan sy'n gweithredu yn y sector gofal cymdeithasol ar lefel Cymru gyfan

Mae'r cynlluniau grantiau hyn yn gweithredu o dan Adran 64 Deddf y Gwasanaeth Iechyd 1968 ac Adran 28b Deddf y Gwasanaeth Iechyd 1977.

Pwrpas y grant yw llenwi bylchau cyllido yng ngweithgareddau craidd cyrff gwirfoddol sy'n gweithredu o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel Cymru gyfan dros:

- Bobl hŷn (a.64).
- Gofalwyr (a.64).
- Oedolion gydag anableddau corfforol a / neu synhwyraidd (a.64).

- Oedolion gydag anableddau dysgu (a.28b).
- Oedolion gyda phroblemau iechyd meddwl (a.28b).

Mae cynlluniau grantiau ar wahân ar gael i bob un o'r grwpiau o bobl uchod. I fod yn gymwys i gael eich ystyried, rhaid i fudiadau gwirfoddol weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol dros bobl yn o leiaf un o'r categorïau uchod, ar lefel Cymru gyfan (genedlaethol).

Prif nod y cynlluniau yw helpu cyrff gwirfoddol cymwys i helpu'r Cynulliad i gyflawni ei amcanion dros y bobl yn y categorïau uchod fel a ddisgrifir yn *Cymru: Gwlad Well.*

Cychwynnodd cylch ceisiadau ar gyfer y cynllun hwn ar 6 Awst 2007 a dyddiad cau are gyfer ceisiadau oedd 19 Hyderef 2007. Mae grantiau wedi'u rhoi am 3 blynedd o Ebrill 2008 hyd 2010-11.

Cyswllt:
Pobl Hŷn - Graham Carter
Ffôn: 029 2082 3423
Gofalwyr - Gavin Parry
Ffôn: 029 2082 6980
Anableddau Corfforol / Synhwyraidd – Sarah Cochrane Ffôn: 029 2082 3097
Anableddau Dysgu - Alyson Collins
Ffôn: 029 2082 5441
Iechyd Meddwl - Tina Jones
Ffôn: 029 2082 5734
mentalhealthpolicymailbox@wales.gsi.gov.uk

Her Iechyd Cymru – cynllun grantiau i'r sector gwirfoddol

Mae'r cynllun grantiau hwn yn bodoli i gryfhau gwaith hybu iechyd yng Nghymru. Cynigir grantiau i gyrff gwirfoddol cenedlaethol sy'n gallu cyfrannu at hybu iechyd ac ychwanegu gwerth at ddatblygiadau hybu iechyd cenedlaethol yng Nghymru.

Mae'r rowndiau cyllido yn gwahodd ceisiadau sy'n ymateb i Her Iechyd Cymru drwy:

- Helpu i ddylanwadu ar yr amodau sydd eu hangen ar bobl i fyw bywydau iach ac i wella eu hiechyd.
- Helpu unigolion a grwpiau i wneud beth fedrant i wella eu hiechyd nhw a'u teuluoedd.
- Helpu i gyfleu'r neges 'iechyd gwell' yn fwy effeithiol.
- Gwella gallu cyrff gwirfoddol a chymunedol cenedlaethol i ymgysylltu â Llywodraeth y Cynulliad a phartneriaid allweddol er mwyn datblygu polisïau ac arferion hybu iechyd. Gall hyn olygu gweithio naill ai'n unigol neu'n gyfunol gyda, er enghraifft, Canolfan Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol a phartneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles lleol er mwyn cyflawni canlyniadau iechyd gwell i bobl Cymru.

Prif themâu y rhaglen Her Iechyd Cymru yw:

- Ysmygu.
- Gordewdra.
- Damweiniau ac anafiadau.
- Camddefnyddio alcohol a sylweddau eraill.
- Heintiau (a drosglwyddir yn rhywiol; a gafwyd drwy ofal iechyd; y gellir eu hatal drwy frechiad; pydredd dannedd).
- Iechyd meddwl a lles.
-

Cyswllt
Michelle Lessard
Ffôn: 029 2082 6246
HPVSGS@wales.gsi.gov.uk

Asiantaethau Gwella Cartrefi a Gofal & Trwsio

Mae grantiau refeniw ar gael i helpu asiantaethau gofal a thrwsio sy'n rhoi cyngor a chymorth ymarferol, technegol ac ariannol ar welliannau i'r cartref, cynnal a chadw a gwaith trwsio i bobl hŷn ac anabl fel y medrant aros yn eu cartrefi eu hunain yn y gymuned am gyn hired ag y maen nhw'n dymuno neu'n gallu.

Cyswllt:
Mr Jeff Childs
Ffôn: 029 2082 5219
Mr Huw McLean
Ffôn: 029 2082 3921
housing-privatesectorunit@wales.gsi.gov.uk

Cynllun grantiau cyrff ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol

Nod y cynllun yw helpu cyrff ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol (sy'n hwyluso gwasanaethau i bobl ifanc yng Nghymru) i gynyddu ystod ac ansawdd y cyfleoedd dysgu anffurfiol sydd ar gael i bob person ifanc 11-25 oed yng Nghymru.

I ddarparu cymorth ariannol tuag at gostau canolog a phrosiectau a gyflawnir gan un mudiad neu gyfuniad o fudiadau ac asiantaethau. Mae unrhyw fudiad cenedlaethol sy'n gallu dangos ei fod yn gwneud gwaith ieuenctid da (fel a ddiffinnir gan y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid i Gymru) yn gymwys i ymgeisio. Nid yw'r cynllun ar gael i grwpiau neu fudiadau ieuenctid gwirfoddol lleol na grwpiau sy'n ganghennau o fudiadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol.

Cyswllt:
Y gangen Strategaeth Gwiath Ieuenctid, Yr Is-adran Strategaeth Plant a Phobl Ifanc, APADGOS, Y Llawr Gwaelod, Ty'r Afon, Heol Bedwas, Caerffili CF838WT.
Ffôn: 01443 663746
Ffacs: 01443 663753
www.wales.gov.uk/entendingentitlement

Atal a Lleihau Digartrefedd a Chysgu Allan

Mae cymorth refeniw i helpu mudiadau gwirfoddol i leihau digartrefedd a chysgu allan yng Nghymru ar gael i:

- Helpu pobl ddigartref, rhai a allai fynd yn ddigartref neu bobl ddi-do, yn enwedig rhai lle nad oes gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddod o hyd i dai ar eu cyfer o dan Ddeddf 1996.
- Darparu cyngor a chyngor arbenigol a / neu lety sydd ddim ar gael yn hawdd mewn mannau eraill.
- Cyflawni ymchwil i ba mor gyffredin yw, ac achosion cysgu allan mewn ardal benodol.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu refeniw ychwanegol a chyllid cyfalaf cysylltiedig i gefnogi awdurdodau lleol er mwyn hwyluso datblygu strategaethau digartrefedd lleol. Rhoddwyd cyllid hefyd i awdurdodau lleol ledled Cymru ar gyfer prosiectau Atal a Llety Dros Dro.

Ar gyfer 2006-08, mae cyllid ar gael i fudiadau i gefnogi rhaglenni Arferion Da i Atal Digartrefedd.

Mae manylion pellach ar gael gan y Tîm Grantiau yn Uned Strategaethau a Gwasanaethau Tai y Gyfarwyddiaeth Dai. Rhaid cyflwyno bidiau drwy'r awdurdod(au) lleol yn yr ardal lle bydd y prosiect yn cael ei redeg.

Cyswllt: Melanie Shott
Ffôn: 029 2082 3339
Andrea Cleaver
Ffôn: 029 2082 6945
housinggrantsadministration@wales.gsi.gov.uk

Rhaglen Grantiau Rheoli Tai Cymdeithasol

Y pwrpas yw cysylltu'r rhaglen yn glir i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer tai cymdeithasol a'r amcanion eang a nodir yn:

- Strategaeth Dai Genedlaethol Cymru.
- Strategaethau Tai ar lefel leol.

Mae prif themâu'r rhaglen yn newid yn flynyddol. Y rhai presennol yw:

- Helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, a gweithgareddau tai eraill yng nghyswllt gwella iechyd.
- Rheoli tai a datblygu cynaliadwy.
- Rheoli tai ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Gorwelion newydd – arloesi ym maes rheoli tai cymdeithasol.

Mae themâu blaenorol wedi cynnwys:

- Gosod tai cymdeithasol.
- Marchnata tai cymdeithasol.
- Gwerth gorau.
- Hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid a hyfforddi.
- Hyrwyddo a phrif ffrydio cyfle cyfartal.
- Tai ac iechyd.
- Datblygu strategaethau tai lleol.
- Datblygu cynlluniau busnes ar gyfer stoc tai cyngor.
- Archwilio a gwerthuso modelau amgen ar gyfer rheoli tai cymdeithasol.
- Gorwelion newydd – arloesi ym maes rheoli tai cymdeithasol.

Mae copi o'r ffurflen gais, canllawiau manwl a'r meini prawf ar gael ar wefan y Cynulliad, neu drwy e-bostio: housinggrantsadministration@wales.gsi.gov.uk

Cyswllt:
Nick Jones
Ffôn: 01685 729198

Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau

Rhoddir yr arian hwn i'r 22 o Bartneraethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru i gomisynu gwasanaethau a fydd yn rhoi sylw i'r anghenion a nodwyd yn eu Cynlluniau Gwella Camddefnyddio Sylweddau lleol.

Gall mudiadau sector gwirfoddol gael arian o'r Gronfa hon drwy gydweithio a'u partneriaeth Diogelwch Cymunedol leol.

Cyswllt: Steve Craddock,Rheolwr Cyllid a Rheoli Perfformiad, Tîm Gweithredu a Chyllido'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau, Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhydycar, Merthyr Tydful, CF48 1UZ
Ffôn: 01685 729105
Stephen.Craddock@wales.gsi.gov.uk

Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

Nid yw Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn adrannau o'r Cynulliad, nac yn rhan o adran ond maen nhw'n darparu cyllid gan Lywodraeth y Cynulliad i wahanol achosion. Maen nhw'n gyrff lled-ymreolaethol sy'n gweithredu o hyd braich. Mae gan bob un fwrdd sy'n gyfrifol am waith y corff.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn dosbarthu cyllid ar ran Llywodraeth y Cynulliad a'r Loteri Genedlaethol i brosiectau celfyddydol.

Cynllun Grantiau Cyfalaf

Cronfa'n bennaf ar gyfer adeiladau a chyfarpar celfyddydol ond gall hefyd gefnogi celfyddyd gyhoeddus, astudiaethau ymarferoldeb a gwaith datblygu. Mae 'Grantiau Cyfalaf Bach' hefyd ar gael i brosiectau rhwng £2,000 a £10,000.

Dyfarniadau Cymru Greadigol (rhwng £5,001 a £12,000)

Cyllid ar gyfer artistiaid proffesiynol, er mwyn helpu artistiaid i ddatblygu eu potensial a gloywi eu sgiliau a'u partneriaethau creadigol. Nod y dyfarniadau hefyd yw fel bod artistiaid yn gallu cymryd amser i ffwrdd o'u hymrwymiadau arferol i ganolbwyntio ar ddatblygu eu gwaith.

Dyfarniadau Cymru Greadigol Mwy (rhwng £20,000 a £25,000)

Yn ychwanegol at yr uchod, rhaid i artistiaid ddangos lefel gyson o gyflawni a chyfrannu o fewn yr ardal lle maen nhw'n ymarfer yn broffesiynol yng Nghymru.

Noson Allan – Cynllun Teithio Cymunedol

Pwrpas y cynllun hwn yw helpu grwpiau a mudiadau cymunedol i gynnal perfformiadau proffesiynol byw heb achosi'r risgiau ariannol arferol.

Cyswllt:
Cyngor Celfyddydau Cymru, 9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd CF10 3NX
Ffôn: 029 20 37 6500
Ffacs: 029 20 22 1447
www.artswales.org

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw corff cynghori'r llywodraeth ar fywyd gwyllt a materion cadwraeth cefn gwlad a morol yng Nghymru. Mae'n hybu'r gwaith o warchod a gwella'r tirlun, cadwraeth bywyd gwyllt a chynefinoedd, cyfleoedd i fwynhau cefn gwlad yn dawel, a dealltwriaeth y cyhoedd o'r amgylchedd.

Ar ôl mynd drwy gyfnod trosiannol gyda darparu grantiau, mae'r Cyngor yn addasu i Strategaeth Gorfforaethol newydd o ddarparu ei waith ar sail themâu, ynghyd â phwyslais newydd ar gyllid o fewn y sector amgylcheddol.

Anogir darpar ymgeiswyr am grantiau i gysylltu â'u Swyddog Cefn Gwlad Rhanbarthol yn eu swyddfa leol cyn cyflwyno cais. Ni fydd y grantiau fel arfer yn fwy na 50 y cant o gostau'r cynllun.

Cyswllt: Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Maes-y-Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd LL57 2DW
Ffôn: 01248 385500
Llinell Holi 0845 130 6229
enquiries@ccw.gov.uk
www.ccw.gov.uk

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Prif waith Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yw casglu gwybodaeth drwy arolygu, cofnodi a dehongli safleoedd, adeiladau a thirluniau hanesyddol ac archeolegol daearol a morol.

Mae'r Comisiwn yn cefnogi cyrff eraill sy'n gweithio yn yr un maes, yn bennaf drwy roi cyngor. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol, mae'n barod i roi cymorth ariannol.

Cyswllt: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ
Ffôn: 01970 612 203
david.browne@rcahmw.org.uk
www.rcahmw.org.uk

Cyngor Chwaraeon Cymru

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn gweithredu nifer o gynlluniau cyllido gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad a gwella perfformiad mewn chwaraeon yng Nghymru. Mae gwybodaeth fwy manwl bellach am y cynlluniau grantiau, a'r meini prawf cymhwyso, ar gael yn y canllawiau perthnasol gan y Cyngor Chwaraeon.

Hyfforddwyr Cymru

Cynllun wedi'i noddi gan Lywodraeth y Cynulliad a Chronfa Loteri Chwaraeon Cymru, i roi cyllid ar gyfer hyfforddi, cefnogi a chyflogi hyfforddwyr.

Élite Cymru

Mae'r cynllun hwn yn rhoi nawdd i'r athletwyr mwyaf addawol yng Nghymru i'w helpu i gyflawni eu potensial. Gallai hyn gynnwys cymorth gyda gwyddoniaeth chwaraeon, cymorth meddygol, cyngor gyrfaol ac addysgol, hyfforddiant a mynediad at gyfleusterau hyfforddi. Ystyrir ceisiadau am grantiau ond ar gyfer y chwaraeon a'r gweithgareddau hynny sy'n cael eu cydnabod gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

Datblygu Cyfleusterau

Cynllun cyfalaf wedi'i noddi gan y Loteri Genedlaethol i wella cyfleusterau chwaraeon ar lefel leol a chenedlaethol, mewn ardaloedd wedi eu hadnabod i fod fwyaf angen cymorth ariannol, chwaraeon a hamdden arnynt. Rhaid i brosiectau ddangos eu bod yn rhoi'r budd chwaraeon parhaol a mwyaf yn ogystal â gwerth am arian.

Y Fenter Genethod yn Gyntaf

Cynllun ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru i annog merched i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ar ôl ysgol. Mae uchafswm o £1,000 ar gael i bob ysgol.

Cymorth i Ddatblygu Teithiau Tramor

Cynllun i gyfrannu'n ariannol at deithiau tramor fydd yn helpu i ddatblygu gêm chwaraeon. Mae'r grantiau wedi eu cyfyngu i gyfraniad o hyd at 50% o'r costau teithio, offer diogelwch a'r deunyddiau hanfodol eraill tebygol. Nid yw grantiau byth bron yn fwy na £1,000.

Mân Grantiau

Cyllid ar gyfer prosiectau sy'n creu cyfleoedd newydd, ychwanegol neu well i wneud chwaraeon. Defnyddir y cynllun yn eang i annog unigolion, teuluoedd a chymunedau i wneud mwy o ymarfer corff. Ni all cyfanswm costau'r prosiect fod yn fwy na £12,500.

SPORTLOT – Cist Gymunedol

Cynllun grantiau i ddatblygu chwaraeon yn y gymuned, yn enwedig i bobl ifanc, merched a genethod a grwpiau difreintiedig. Gwneir penderfyniadau ynghylch grantiau llai na £750 yn lleol. Sefydlwyd pwyllgorau ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, sy'n cynnwys pobl leol sy'n gwybod am chwaraeon.

Diogelwch Chwaraeon

Cynllun i helpu mudiadau diogelwch chwaraeon cenedlaethol, clybiau diogelwch chwaraeon a thimau achub i ddarparu gwasanaeth diogelwch ac achub i bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn yr amgylchedd naturiol. Mae gweithgareddau cymwys yn cynnwys cynlluniau cyfalaf, offer arbenigol wedi'i adnewyddu a phrosiectau arbennig i wella cyfranogi a / neu safonau. Uchafswm y grantiau yw 75% o gyfanswm costau unrhyw brosiect hyd at £7,500 am wariant cyfalaf, a £2,500 am wariant refeniw.

Sportsmatch Cymru

Cynllun sy'n darparu cyswllt hanfodol rhwng y sector masnachol a datblygiad chwaraeon yn y gymuned, ac sy'n cynnig nawdd i glybiau chwaraeon a chyrff llywodraethu gyda phrosiectau sy'n gwella cyfranogiad cymunedol, drwy gyfateb buddsoddiad gan y sector preifat 'punt am bunt'.
Cyswllt: Cyngor Chwaraeon Cymru, Gerddi Soffia, Caerdydd CF11 9SW
Ffôn: 0845 045 0904
Ffacs: 029 2030 0600
scw@scw.co.uk
www.sports-council-wales.co.uk

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Sefydlwyd y Bwrdd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, a'i brif bwrpas yw hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

Mae'r Bwrdd yn ceisio gweithio mewn partneriaeth â mudiadau sy'n cynnig cyngor a chymorth i ddarparwyr gwasanaeth yng Nghymru er mwyn rhoi dewis naturiol o iaith i'w cwsmeriaid.

Grantiau i hybu'r iaith Gymraeg

Mae'r Bwrdd yn cynnig grantiau i gyrff gwirfoddol sy'n gweithio ar brosiectau sy'n arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r cynllun yn darparu nawdd i weithgareddau sy'n cynyddu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Gellir rhoi grant am hyd at dair blynedd.
Yn ogystal, ceir cynlluniau grantiau i ddarparu deunyddiau dwyieithog ac i fusnesau. Rhaid i bob ymgeisydd cymwys fod â chyfansoddiad, statws cyfreithiol derbyniol a strwythur rheoli democrataidd.
Fodd bynnag, gall y Bwrdd ystyried ceisiadau gan gyrff newydd, neu gan fudiadau sydd wedi sefydlu ond heb eto ffurfiol eu statws.

Cyswllt: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1AT
Ffôn: 029 2087 8000 Ffacs: 029 2087 8001
post@welsh-language-board.org.uk
www.welsh-langauge-board.org.uk
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Cyllid o gronfeydd eraill gan y Llywodraeth

Ceir ystod o ffynonellau cyllid amrywiol gan y Llywodraeth sy'n cynnwys cyllid gan y Cynulliad wedi'i weinyddu gan gyrff gwirfoddol fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a chynghorau gwirfoddol sirol.

Y Gronfa Benthyciadau Cymunedol

Sefydlwyd Benthyciadau Cymunedol gan Gyllid Cymru ym 1999 i gefnogi mentrau cymunedol ledled Cymru.

Nod y gronfa fenthyciadau yw pontio'r bylchau mewn cymorth ariannol i economi gymdeithasol sydd ar ei phrifiant. Drwy gau'r bylchau hyn, mae'r benthyciadau'n cryfhau hyfywedd ariannol mentrau cymunedol ac yn eu gwneud yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir.

Mae benthyciadau cymunedol yn gweithredu fel catalydd i gynyddu'r llif arian i fentrau adfywio cymunedol. Maen nhw ar gael i ganghennau masnachol elusennau; busnesau cymunedol, mentrau cydweithredol; undebau credyd; ymddiriedolaethau datblygu; busnesau a berchenogir gan y gweithwyr; busnesau cymdeithasol; cwmnïau cymdeithasol; mentrau sy'n cael eu rhedeg gan grwpiau ethnig a chyrff gwirfoddol.

Mae creu swyddi a datblygu economaidd yn elfennau hanfodol o unrhyw gais llwyddiannus. Fodd bynnag, mae Cyllid Cymru yn cynnig arweiniad a chymorth cam-wrth-gam i ymgeiswyr drwy reolwr cronfa proffesiynol dynodedig.

Cyswllt:
Cyllid Cymru ccc, Tŷ Oakleigh,
Plas-y-Parc, Caerdydd CF10 3DQ
Ffôn:029 2033 8100
Ffacs: 029 2033 8101
sarah.mayze@financewales.co.uk
info@financewales.co.uk
www.financewales.co.uk

ENTRUST
Cynllun Credydau Treth Tirlenwi

Er nad yw'r cynllun grantiau hwn wedi'i noddi'n benodol gan y Llywodraeth, mae'n rhoi cyfle i weithredwyr tirlenwi gefnogi ystod eang o brosiectau amgylcheddol drwy roi credyd treth o 90% iddynt yn erbyn eu cyfraniadau at brosiectau amgylcheddol. Rhaid gwario'r credydau treth tirlenwi yn unol â'r rheoliadau ar dreth tirlenwi. Mae Cyllid a Thollau EM wedi cyhoeddi bod y Cynllun Credydau Treth Tirlenwi yn newid ei enw i'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi.

Nid yw ENTRUST yn cyllido unrhyw waith o fewn y Cynllun Credydau Treth Tirlenwi. Rôl ENTRUST yw rheoleiddio'n unig ac ni all orfodi unrhyw weithredwr tirlenwi i ariannu prosiect arbennig.

Fodd bynnag, mae ganddo gyfrifoldeb i gofrestru, monitro ac archwilio cyrff sydd wedi cofrestru gydag ENTRUST fel Cyrff Amgylcheddol. Mae'r cyrff dosbarthu hyn yn helpu grwpiau eraill i ddefnyddio credydau treth tirlenwi.

Mae nifer o ffyrdd o gael gafael ar gyllid. Nid oes angen i gyrff fod yn elusennol, er bod angen iddynt fod yn ddi-elw a rhaid defnyddio unrhyw weddill i ariannu amcanion eich mudiad ymhellach.

Cyswllt:
ENTRUST, 6th Floor, Acre House,
2, Town Square, Sales,
Sir Gaer M33 7WZ
Ffôn: 0161 972 0044
Ffacs: 0161 972 0055
information@entrust.org.uk
www.entrust.org.uk

Amgylchedd Cymru

Nod Amgylchedd Cymru yw gwarchod a gwella amgylchedd Cymru drwy gefnogi gwaith gwirfoddol sy'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Mae'r Fenter wedi bod yn rhedeg ers Ebrill 1992.

Gweinyddir Menter Amgylchedd Cymru gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Amcanion y fenter yw:

- Cyflawni gwelliannau cynaliadwy i'r amgylchedd yng Nghymru drwy brosiectau ymarferol.
- Cynyddu dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy a'r amgylchedd drwy wybodaeth, addysg a gwasanaethau cynghori.
- Helpu i greu prosiectau amgylcheddol newydd sydd hefyd yn rhoi cyfle i gymunedau a chyrff gwirfoddol gyfrannu at eu hanghenion cymdeithasol ac economaidd.
- Cefnogi a hyfforddi staff a gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn.

Mae'r prosiectau sy'n derbyn blaenoriaeth fel rheol yn rhai:

- Sy'n arloesol neu'n gydweithredol, yn enwedig rhai sy'n gwella datblygu cynaliadwy ac y gellid eu defnyddio fel model mewn ardaloedd eraill.
- Sy'n annog ac yn cefnogi cymunedau i gymryd rhan yn Agenda Leol 21.
- Lle byddai'r grant yn gwella safon y gwaith ac yn sicrhau mwy o fudd i'r amgylchedd.
- Lle gallai'r grant wella'r potensial i godi incwm drwy brosiect arbennig.
- Sy'n gallu dod o hyd i nawdd o ffynonellau eraill.

Cyswllt: Amgylchedd Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH
Ffôn: 029 2043 1769
info@environment-wales.org
www.environment-wales.org

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

Mae'r WCVA yn gweinyddu nifer o gynlluniau grantiau ar ran Llywodraeth y Cynulliad.

Mae aelodau o'r WCVA yn derbyn gwybodaeth am gyllid fel rhan o *e-briffio* bob pythefnos, neu drwy ymaelodi am ddim gyda'r WCVA gallwch dderbyn y bwletin *Newyddion* cyllid sydd hefyd yn dod allan bob pythefnos. Mae gwybodaeth am gyllid hefyd ar gael yn *e-fwletin* y Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf (CFSN), sy'n cael ei ddosbarthu'n fisol gan WCVA ar ran y Rhwydwaith.

Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf

Rhaglen adfywio gan Lywodraeth y Cynulliad yw Cymunedau yn Gyntaf sy'n targedu'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r Gronfa

Ymddiriedolaeth, sy'n un o brosiectau gan y Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, yn rhoi grantiau bach i grwpiau mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer unrhyw fath o weithgaredd sy'n cynnwys pobl leol drwy fudiadau cymunedol. Nod y gronfa, a weinyddir gan y WCVA, yw cefnogi gweithgareddau sydd o fudd economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol neu ddiwylliannol i bobl.

Cyswllt:
Llinell Gymorth CFSN
Ffôn: 0800 587 8898
enquiries@communitiesfirst.info
www.communitiesfirst.info

Y Gronfa Buddsoddiad Cymunedol

Fel rhan o CFSN, lansiwyd y Gronfa Buddsoddiadau Cymunedol gan y WCVA mewn cydweithrediad â'i bartneriaid prosiect, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru, i wneud buddsoddiadau tymor hir drwy becynnau cyllid benthyciad hyblyg. Cefnogir hyn gan grant datblygu i helpu mudiadau i fod yn barod ar gyfer eu benthyciad.

Bydd y Gronfa'n helpu i adeiladu cynaliadwyedd mudiadau a mentrau cymdeithasol gwirfoddol cymunedol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac Amcan Un sy'n gallu codi digon o gyllid o ffynonellau mwy confensiynol. Mae hwn yn llinyn allweddol yn rhaglen Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael ag allgau cymdeithasol, ac fe'i cyflawnir drwy helpu i ddatblygu capasiti busnesau i gynhyrchu incwm, drwy wella sgiliau busnes gyda rheoli asedau'n llwyddiannus, a thrwy annog gweithgareddau busnes o safon uchel.

Cyswllt:
Llinell Gymorth CFSN
Ffôn: 0800 587 8898
enquiries@communitiesfirst.info
www.communitiesfirst.info

Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Rhaglen sy'n cael ei rhedeg ar draws y DU yw Gwirfoddolwyr y Mileniwm, i bobl ifanc sydd â diddordeb mewn neu'n cymryd rhan mewn gwirfoddoli. Pwrpas y rhaglen yw hybu a chydnabod ymrwymiad parhaus, gan bobl ifanc rhwng 16-24 oed, i wirfoddoli sy'n cael effaith glir ar y gymuned.

Yng Nghymru, rheolir y rhaglen gan Banel Cynghori Gwirfoddolwyr y Mileniwm, sef partneriaeth rhwng y WVCA a Chyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru. Gellir cyflwyno ceisiadau am symiau rhwng £50 a £7,000 i dalu am gostau gwirfoddolwyr. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar y nifer o geisiadau y gellir eu gwneud. Mae ceisiadau gan brosiectau sy'n cael eu harwain gan bobl ifanc yn cael eu cymeradwyo'n sydyn iawn drwy system garlam. Mae'r panel cynghori'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn.

Cyswllt:
Desg Gymorth y WCVA
Ffôn: 0800 2888 329
help@wcva.org.uk
www.wvca.org.uk

Y Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru

Gweinyddir y Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Mae cyllid ar gael i hybu gwirfoddoli yng Nghymru, yn enwedig gan bobl ddi-waith, ac ym meysydd iechyd a lles cymdeithasol.
Nod y gronfa yw:

- Cefnogi prosiectau Cymreig lle mae eu hamcanion yn cael eu cyflawni'n bennaf gan ymdrechion a chymorth gwirfoddol.
- Cefnogi mudiadau di-elw lle mai eu prif bwrpas yw chwilio am grantiau i recriwtio, hyfforddi a lleoli gwirfoddoli.
- Annog safonau ac arferion da mewn gwirfoddoli.
- Cefnogi'r bobl hynny sydd mewn perygl o gael eu hallgau'n gymdeithasol drwy gyfrwng gwirfoddoli.

Rhoddir grantiau o hyd at £25,000 yn y flwyddyn gyntaf, a cheir ail gyfle i ymgeisio am gyllid yn yr ail a'r drydedd flwyddyn o hyd at £12,500 am y naill a £6,250 am y llall.

Mae unrhyw gorff gwirfoddol gyda chyfansoddiad sy'n gweithio, neu'n bwriadu gweithio yng Nghymru, yn gymwys i ymgeisio.

Ni fydd grant fel arfer yn cael ei roi i brosiectau sy'n gymwys i dderbyn cyllid gan ffynonellau Llywodraeth y Cynulliad mwy priodol.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 31 Hydref 2008. Bydd ceisiadau llwyddiannus yn derbyn cyllid o fis Ebrill 2009 ymlaen.

Cyswllt: Desg Gymorth y WCVA
Ffôn: 0800 2888 329
help@wcva.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn
Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA
Elusen Gofrestredig *1088828*

Ffôn: 01248 724944 post@medrwnmon.org
Ffacs: 01248 750149 www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:24/11/2008

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk